**PWYLLGOR YR AMGYLCHEDD, CYNLLUNIO A THRAFNIDIAETH**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | Dydd Mercher 14 Chwefror 2001 |
| **Amser:** | 2.00 hyd 5.00 pm |
| **Lleoliad:** | Ystafell Bwyllgora 3, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol |

# DEDDF CEFN GWLAD A HAWLIAU TRAMWY 2000 –

# GWEITHREDU'R DDEDDF

## Diben

1. Mae'r papur hwn yn rhoi crynodeb byr o brif ddarpariaethau'r Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy a dderbyniodd Gydsyniad Brenhinol ar 30 Tachwedd. Mae'n disgrifio prif gyfrifoldebau'r Cynulliad mewn perthynas â'r Ddeddf, yn ystyried sut i'w rhoi ar waith yng Nghymru ac yn cynnig rhaglen fras ar gyfer yr is-ddeddfwriaeth sydd ei hangen.

## Argymhelliad

2. Bod y Pwyllgor yn nodi'r wybodaeth yn y papur hwn a bwriadau Gweinidog yr Amgylchedd ynghylch dod â'r is-ddeddfwriaeth yn ei blaen.

## Prif Ddarpariaethau'r Ddeddf

3. Mae'r Ddeddf mewn pedair prif rhan. Y prif ddarpariaethau yw:-

a. **Rhan I – Mynediad i Gefn Gwlad Agored.** Mae'r Ddeddf yn rhoi hawl newydd statudol i'r cyhoedd grwydro ar droed yn yr ardaloedd cefn gwlad agored (hy tir comin cofrestredig a chefn gwlad agored sy'n fynydd, rhostir, gweundir neu fryniau 'yn bennaf neu'n gyfangwbl'.) Bydd cyfyngiadau ar yr hawliau newydd – er enghraifft mae'r Ddeddf yn caniatáu i berchnogion tir eithrio neu wahardd mynediad am unrhyw reswm am hyd at 28 diwrnod y flwyddyn; ac i wahardd c^wn dan amgylchiadau penodol, yn ystod y

tymor wyna er enghraifft. Hefyd gall tirfeddianwyr gyflwyno cais i Gyngor Cefn Gwlad Cymru a'r Parciau Cenedlaethol am eithriadau neu gyfyngiadau pellach oherwydd rhesymau rheoli tir. Y nod yw y dylai ffermwyr a thirfeddianwyr fod yn rhydd i reoli eu tir yn ôl eu doethineb, o fewn cyfyngiadau presennol y gyfraith. Yn unol â hyn, nid oes cynnydd yn rhwymedigaethau cyfreithiol perchnogion tir (ac maent wedi eu cwtogi mewn rhai agweddau).

Yn ychwanegol mae'r Ddeddf yn caniatáu i berchnogion ddynodi tir fel "tir mynediad" yn wirfoddol. Mae adrannau 94 a 95 Rhan V y Ddeddf yn berthnasol yma hefyd, gan eu bod yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau priffyrdd ac Awdurdodau Parciau Cenedlaethol sefydlu fforymau mynediad lleol – ac ystyried eu safbwyntiau wrth gyflwyno a gweithredu'r darpariaethau newydd.

b. **Rhan II – Hawliau Tramwy'r Cyhoedd a Thraffig y Ffyrdd.** Mae Rhan II yn cynnwys darpariaethau i wella a chryfhau'r rheolaeth dros y 25,000 o lwybrau cyhoeddus yng Nghymru. Mae'r Ddeddf yn gosod dyletswyddau ar awdurdodau lleol i ddarparu cynlluniau gwella hawliau tramwy'r cyhoedd a chael gwared ar unrhyw rwystrau pan dderbynnir cais i'r perwyl hynny; yn darparu dyddiad terfynol ar gyfer nodi hawliau tramwy'r cyhoedd ar fapiau swyddogol; yn darparu ar gyfer gwyro neu ddiddymu hawliau tramwy dan amgylchiadau penodol; ac yn creu categori newydd sef 'cilffyrdd cyfyngedig' (llwybrau cyhoeddus nad oes gan gerbydau modur yr hawl i'w defnyddio).

c. **Rhan III – Cadwraeth Natur a Gwarchod Bywyd Gwyllt.** Mae rhan hon y Ddeddf yn cryfhau'r mesurau i warchod Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, y cynefinoedd pwysicaf ar gyfer rhywogaethau planhigion/anifeiliaid a nodweddion daearegol yng Nghymru. Yn benodol: mae'n gosod dyletswydd ar y Cynulliad i ystyried cadwraeth bioamrywiaeth wrth weithredu ei swyddogaethau; mae'n gwella'r trefniadau ar gyfer dynodi a dad-ddynodi Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig ac yn cynnwys mesurau i sicrhau gwell rheolaeth (wedi ei gydbwyso gan yr hawliau apêl newydd i berchnogion tir a effeithir gan hyn); ac mae'n cynyddu'r cosbau am achosi difrod i Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig ac am droseddau yn erbyn bywyd gwyllt.

d. **Rhan IV – Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol (AOHNE).** Mae'n cyflwyno darpariaethau i gryfhau rheolaeth y pum Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol yng Nghymru, sy'n cynnwys rhai o dirluniau mwyaf ysblennydd Cymru. Yn benodol, bellach bydd rhaid paratoi cynlluniau rheoli statudol gan yr awdurdodau lleol perthnasol; mae cyrff cyhoeddus dan ddyletswydd i ystyried dibenion AOHNE wrth gyflawni eu swyddogaethau yn yr ardaloedd hyn; ac mae'n bosibl y sefydlir byrddau cadwraeth newydd i reoli'r AOHNE.

**Y Goblygiadau i Gymru**

4. Mae'r Ddeddf newydd yn cynrychioli cyfle pwysig i gynyddu nifer yr ymwelwyr i Gymru sy'n

dymuno mwynhau cefn gwlad Cymru ac sy'n gallu rhoi hwb defnyddiol i'r economi leol. Gall darpariaethau'r Ddeddf gynorthwyo i wireddu amcanion y Cynulliad ei hun o ran sicrhau gwell iechyd ac ansawdd bywyd i bobl Cymru. Mae'n hysbys fod ffermwyr a thirfeddianwyr yn bryderus am effaith rhai agweddau o'r Ddeddf, yn enwedig y darpariaethau o ran mynediad i gefn gwlad. Trwy reoliadau wedi eu drafftio'n synhwyrol, ymgynghoriad ystyrlon a gwybodaeth a chanllawiau priodol, dylai fod yn bosibl ymateb i'r pryderon hyn. Bydd gwneud hyn, tra'n sicrhau bod darpariaethau'r Ddeddf yn cael eu gweithredu ar yr un pryd, mewn modd sy'n parchu cymunedau lleol, yn her sylweddol i'r Cynulliad a'i phartneriaid allweddol.

**Gweithredu'r Ddeddf yng Nghymru**

5. Mae'r Ddeddf yn cynnwys nifer sylweddol o bwerau a dyletswyddau newydd, sy'n effeithio'n bennaf ar yr awdurdodau lleol, y Parciau Cenedlaethol, Cyngor Cefn Gwlad Cymru, y Comisiwn Coedwigaeth a'r Cynulliad Cenedlaethol ei hun yng Nghymru. Mae nifer o'r darpariaethau wedi, neu byddant yn dod i rym yn awtomatig. Mae'r rhain yn cynnwys mwyafrif y darpariaethau yn Rhannau I a III, rhai darpariaethau penodol yn Rhan II a'r darpariaethau yn ymwneud â fforymau mynediad lleol yn Rhan V. Rhaid wrth Orchmynion Cychwyn wedi eu cymeradwyo gan y Cynulliad i weithredu gweddill y darpariaethau. Yn ychwanegol, bydd y Cynulliad yn gyfrifol am gymeradwyo deddfwriaeth eilaidd a chanllawiau newydd i siapio a chynorthwyo gyda gweithredu'r Ddeddf yn ymarferol yng Nghymru. Ceir rhestr o'r prif feysydd deddfwriaeth eilaidd yn Atodiad A; ynghyd ag atodlen amlinellol ac amserlen fras ar gyfer y prif reoliadau yn Atodiad B. Mae Cyngor Cefn Gwlad Cymru yn tybio y gallai'r hawl mynediad newydd fod yn weithredol ar draws Cymru gyfan erbyn diwedd 2004/dechrau 2005, gan ddibynnu ar y cynnydd gyda'r mapio a nifer yr apeliadau. Rhagwelir amserlen (ddarpariaethol) debyg yn Lloegr hefyd.

6. Golyga'r angen am ddeddfwriaeth eilaidd a chanllawiau cysylltiedig na fydd yr hawl mynediad newydd yn <u>dod i rym ar unwaith</u>. Mae gwaith paratoadol defnyddiol yn cael ei wneud, fodd bynnag, i sicrhau y bydd y cyhoedd yn gallu defnyddio eu hawl newydd mewn modd gwybyddus, diogel ac ymarferol – gynted ag y bo modd. Cyngor Cefn Gwlad Cymru, gyda chyngor gan a chydweithrediad y Parciau Cenedlaethol a'r awdurdodau lleol, sy'n arwain hyn – yn ymgymryd â'r gwaith ar y mapiau tir mynediad, yn ystyried canllawiau newydd ar gyfer defnyddwyr a thirfeddianwyr ynghylch eu hawliau a'u cyfrifoldebau, a sefydlu fforymau mynediad lleol 'peilot'. Mae manteision amlwg – i gerddwyr, twristiaid, y cyhoedd a pherchnogion tir/ffermwyr fel ei gilydd – os yw'r broses o weithredu'r darpariaethau yn bwrw ymlaen mewn modd cyson y naill ochr i Glawdd Offa. Nid yw hyn yn golygu fod angen iddynt fod yn <u>unfath</u> fodd bynnag; lle bo'n briodol bydd y Cynulliad yn dymuno adlewyrchu materion penodol i Gymru, yn cynnwys yr iaith Gymraeg.

**Blaenoriaethau ar gyfer Is-ddeddfwriaeth.**

7. Mae Atodiad A yn rhestru'r prif reoliadau sy'n ofynnol ac mae Atodiad B yn awgrymu

amserlen bosibl ar gyfer cyflwyno'r rheoliadau drafft. Mae'r amserlen olaf hon yn ystyried y cynlluniau arfaethedig yn Lloegr. Awgrymir bod rheoliadau yn ymwneud â mapio a'r fforymau mynediad lleol yn cael blaenoriaeth uchel, gan ddilyn gyda rheoliadau ar apeliadau, eithriadau/ cyfyngiadau, a ch^wn. Yn eu hanfod, y mapiau a'r fforymau mynediad lleol yw'r sylfeini ar gyfer gweithredu.

**Tir arfordirol.**

8. Mae Adran 3 y Ddeddf yn caniatáu i'r Cynulliad ymestyn, trwy orchymyn, yr hawl statudol i fynediad i dir ar neu wrth ymyl y morlin. Byddai hyn yn ychwanegol at y prif ddarpariaeth ar gyfer mynediad i gefn gwlad agored. Mae rhannau helaeth o arfordir Cymru yn caniatáu mynediad i'r cyhoedd – er enghraifft, llwybr arfordirol Sir Benfro. Felly bwriadwn gynnal asesiad o sut y gellid gweithredu'r darpariaethau mynediad yn yr ardaloedd arfordirol, ond y flaenoriaeth yw gweithredu'r hawl i fynediad i gefn gwlad agored, yn cynnwys tir comin cofrestredig. Mae hyn yn cyd-fynd â chyngor Cyngor Cefn Gwlad Cymru.

**Goblygiadau Ariannol**

9. Mae cyllideb y Cynulliad yn gwneud darpariaeth ar gyfer gweithredu darpariaethau'r Ddeddf. Yn 2001/2 mae hyn yn cynnwys £1.2 miliwn ychwanegol i Gyngor Cefn Gwlad Cymru, £360,000 amcangyfredig i'r tri Parc Cenedlaethol a rhyw £2.4 miliwn i'r awdurdodau lleol. Bydd hyn yn ein galluogi i fwrw ymlaen a gwneud cynnydd eleni, yn enwedig ar: mapio a'r broses ymgynghori gysylltiedig, yn cynnwys sefydlu fforymau mynediad lleol; cynhyrchu gwybodaeth ac arweiniad i ddefnyddwyr a pherchnogion tir; ac ar gyfer gwelliannau i'r rhwydwaith hawliau tramwy ac mewn perthynas â'r trefniadau ar gyfer Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig. Mae'r dyraniadau cyllideb ymlaen llaw i'r sefydliadau hyn hefyd yn cynnwys darpariaeth i symud ymlaen ymhellach â'r gwaith. Mae'n bosibl y bydd angen rhagor o ddarpariaeth i ymdrin ag apeliadau i'r Cynulliad sy'n deillio o'r gwaith mapio. Caiff hyn ei ystyried yn y rownd berthnasol o gynllunio'r gyllideb.

**Cydymffurfio**

10. Mae'r Ddeddf yn rhoi pwerau i'r Cynulliad greu'r ddeddfwriaeth eilaidd berthnasol yng Nghymru. Mae cyfrifoldebau'r Pwyllgor yn Rheolau Sefydlog 9.7 a 9.8 yn cynnwys datblygu polisi a chynnig cyngor ar ddeddfwriaeth arfaethedig sy'n effeithio ar Gymru.

**Y camau nesaf**

11. Bydd barn y Pwyllgor ar y materion a nodwyd ym mharagraff 7 uchod yn cynorthwyo i arwain y broses o gyflwyno a gweithredu'r Ddeddf yng Nghymru. Cyflwynir adroddiadau rheolaidd ar y cynnydd i'r Pwyllgor; ac ymgynghorir â'r Pwyllgor ynghylch y prif reoliadau drafft yn ymwneud â hyn.

Chwefror 2001 Adain Cefn Gwlad

**Countryside and Rights of Way Act 2000**

**Main areas for Assembly Subordinate Legislation Annex A**

Part I

1. The mapping of access land and consultation on draft maps. (Section 11)

2. Handling of appeals and issuing of conclusive maps. (Section 11).

3. Voluntary dedication of access land. (Section 16).

4. General circumstances in which exclusions and restrictions may apply, including appeals – and identification of ‘interested persons’. (Section 32)

5. Additional restrictions on access with dogs. (Section 32)

6. Restrictions on access in an emergency. (Section 31)

7. Appeals in relation to means of access. (Section 38)

   Part II

8. Vehicular access over common land. (Section 68)

9. Rights of Way Improvement Plans. (Section 61)

10. Amend existing legislation on Reclassification of Roads used as Public Paths (‘restricted byways’). (Section 52)

11. Defining obstacles on rights of way which highway authority must remove. (Section 63)

12. Diversion of rights of way and extinguishing of rights of way in certain circumstances (e. g. for crime prevention and to protect SSSIs). (Schedule 6 Part 1.)
13. Publication of performance reports on rights of way functions. (Section 71)
14. Prohibition of driving mechanically propelled vehicles elsewhere than on roads. (Section 67 & Schedule 7)

Part III

15. Appeals in connection with consents to undertake works on an SSSI, management notices and stop notices. (Schedules 9 & 11)

Part V

16. The establishment of local access forums and appointment of members. (Section 94)

**Possible Programme for Subordinate Legislation Annex B**

**During 2001/2**

1. Prepare Commencement Orders to bring into force relevant sections of the Act

2. Prepare, consult on and take through Assembly legislative procedure :

   a. *form of access maps and consultation procedure (Section 11)

   b. *local access forums (Section 94)

   c. exclusions and restrictions, including appeals (Section 32)

   d. consultation on provisional maps including appeals (Section 11)

e. *vehicular access over common land (Section 68)

f. appeals in connection with consents to undertake works on an SSSI, management and stop notices (Schedule 9 & 11)

**During 2002/3**

g. voluntary dedication of access land (Section16)

h. additional restrictions on dogs (Section 32)

i. types of obstructions to be removed from rights of way (Section 63)

j. diversions and extinguishing of rights of way (Schedule 6)

k. Rights of Way Improvement Plans (Section 61)

l. Prohibition of mechanically propelled vehicles off-road (Section 76 & Schedule 7)

**During 2003/4**

m. regulations to exclude access in emergencies (Section 31)

n. Appeals on means of access (Section 38)

o. restricted byways (Section 52)

p. reports on rights of way performance (Section 71)

***** To be brought forward by summer 2001.